# Ordinhad 1

# Y Cyngor

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 3.0 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 1
# Y Cyngor

1. **Aelodaeth**

1.1 Cedwir cofrestr o aelodau'r Cyngor gan Ysgrifennydd y Cyngor, yn cynnwys eu henwau, y swyddogaeth y maent yn gwasanaethu ynddi a'u cyfnodau mewn swydd. Bydd y gofrestr hon ar gael i'w harchwilio gan unrhyw aelod o'r Cyngor ar bob adeg resymol.

1.2 Nid yw aelodau’r Cyngor yn derbyn unrhyw dâl am eu gwasanaeth, ond mae’r brifysgol yn talu costau teithio a chynhaliaeth yn unol â’i rheoliadau cyllidol.

1.3 Gellir gwneud cais i Gadeirydd y Cyngor ddiswyddo aelod o'r Cyngor am achos da, gan gynnwys ymddygiad amhriodol, amhriodoldeb ariannol, torri cyfrinachedd, methu â mynd i gyfarfodydd, neu anghymwyster i fod yn ymddiriedolwr elusen. Yn ogystal, mae’r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn derbyn adroddiadau ar bresenoldeb aelodau ym mhob cyfarfod a gall ystyried parhad aelodaeth unigolyn ar yr adeg honno.

Rhaid i gais i ddiswyddo aelod o’r Cyngor (os na wneir gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu) gael ei wneud gan o leiaf ddau aelod o'r Cyngor, gan roi sail dros ei ddiswyddo, a rhaid sefydlu panel sy'n cynnwys tri aelod annibynnol o'r Cyngor, wedi ei hwyluso gan Ysgrifennydd y Cyngor, i ystyried y cais, a gwneud argymhelliad i'r Cyngor a ddylid cadarnhau'r cais neu ei wrthod. Rhaid ffurfio'r panel hwn o aelodau annibynnol ac eithrio'r rhai a wnaeth y gŵyn wreiddiol.

**2. Swyddogion**

2.1 Bydd y Cyngor yn penodi Cadeirydd o blith ei aelodau, yn unol â’r hyn a amlinellir yn Ordinhad 2, a fydd yn dal y swydd am gyfnod o bedair blynedd fel arfer (neu gyfnod byrrach os pennir hynny adeg eu hethol) neu hyd nes bo'r sawl a benodwyd yn peidio â bod yn aelod o'r Cyngor (pa bynnag gyfnod yw'r byrraf). Bydd y Cadeirydd yn gymwys i gael ei ailbenodi am un cyfnod pellach o bedair blynedd fel arfer fel y nodir ym mharagraff 12 o'r Siarter. Penodir y Cadeirydd i’r disgrifiad swydd cyfredol y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i Gadeirydd y Cyngor.

2.2 Bydd y Dirprwy Ganghellor(ion) yn gwasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd.

2.3 Penodir Ysgrifennydd y Cyngor gan y Cyngor fel yr amlinellir yn Ordinhad 7.

2.4 Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) neu a benodir fel arall fydd Ysgrifennydd y Cyngor.

2.4 Os daw swydd y Cadeirydd yn wag yn ystod ei gyfnod yn y swydd, bydd y Cyngor yn penodi Cadeirydd Dros Dro o blith ei aelodau i wasanaethu hyd nes penodir Cadeirydd newydd yn unol â darpariaeth 2.1 uchod ac Ordinhad 2.

2.6 Os nad oes Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd yn bresennol ar unrhyw adeg, bydd yr aelodau a fydd yn bresennol yn dewis un o'u plith i fod yn Gadeirydd ar y cyfarfod hwnnw.

2.7 Dehonglir y term 'blwyddyn' ym mharagraff 2.1 uchod i olygu 'blwyddyn academaidd', a bydd yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf mis Medi.

**3. Cyfarfodydd**

3.1 Bydd gan bob aelod yr hawl, wrth annerch y Cyngor, i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.

3.2 Bydd y Cyngor yn cyfarfod ar unrhyw achlysuron a bennir gan Ordinhad neu fel y bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyfarwyddo, neu os gofynnir amdano trwy hysbysiad ysgrifenedig wedi ei lofnodi gan o leiaf saith aelod o'r Cyngor, ar yr amod bod yr hysbysiad hwnnw'n nodi at ba bwrpas y mae'n rhaid cynnal y cyfarfod.

3.3 Bydd y Cyngor yn cyfarfod wyneb yn wyneb, neu'n rhithiol ar-lein fel y bydd Cadeirydd y Cyngor yn ei gyfarwyddo.

3.4 Cynhelir pum cyfarfod arferol o'r Cyngor bob blwyddyn.

Gelwir y cyfarfodydd hyn yn gyfarfodydd arferol ac ystyrir eu bod yn cael eu cynnull gan y Cadeirydd. Gelwir unrhyw gyfarfod heblaw'r rhai a nodwyd uchod yn gyfarfod arbennig, a fydd yn cael eu cynnull gan y Cadeirydd.

3.5 Cynullir pob cyfarfod o'r Cyngor trwy roi hysbysiad i'r aelodau amdanynt.

3.6 Ni fydd peidio ag anfon hysbysiadau'n ddamweiniol, camgymeriadau damweiniol wrth eu cyfeirio a methiant ar ran y gwasanaeth post i'w danfon, yn dirymu gweithrediadau'r cyfarfod a gynullwyd yn y modd hwn.

3.7 Ni chaiff gweithrediadau'r Cyngor eu dirymu oherwydd bod unrhyw swydd wag ar y Cyngor, neu oherwydd unrhyw ddiffyg wrth benodi unrhyw un sy'n pleidleisio fel aelod.

3.8 Anfonir y cais am gyfarfod arbennig yn unol â pharagraff 3.1 uchod at Ysgrifennydd y Cyngor, a bydd yn datgan y mater i'w drafod yn y cyfarfod. Bydd y rhybudd yn cynnull unrhyw gyfarfod arbennig yn datgan y mater i'w drafod yn y cyfarfod hwnnw, ac mewn cyfryw gyfarfod, cyfyngir yr hyn a drafodir i'r hyn a nodwyd yn y rhybudd ac unrhyw faterion ym marn y Cadeirydd sy'n deillio'n uniongyrchol o'r mater hwnnw.

3.9 Bydd unrhyw aelod sy'n dymuno dod ag unrhyw fater i sylw cyfarfod arferol yn rhoi 10 diwrnod o rybudd ysgrifenedig ohono i Ysgrifennydd y Cyngor fel arfer. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor, ddim llai na phedwar diwrnod cyn pob cyfarfod arferol, yn anfon rhybudd at bob aelod o'r Cyngor o'r holl faterion i'w dwyn gerbron y cyfryw gyfarfod, yn cynnwys, cyn belled ag y bo modd, ddatganiad am natur y materion yr adroddir arnynt gan unrhyw bwyllgor.

3.10 Yn unol â pharagraff 13 y Siarter, cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yw deg, cyhyd â bod aelodau annibynnol mewn mwyafrif.

3.11 Mae aelodau annibynnol, at ddibenion cael cworwm fel y cyfeirir ato yn 3.9. uchod, yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor a Dirprwy Ganghellor(ion), ond ni fyddant yn cynnwys unrhyw aelod staff (ex-officio ac etholedig), myfyrwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr, ac unrhyw aelod cyfetholedig o'r Cyngor.

3.12 Os nad oes cworwm yn bresennol mewn cyfarfod o fewn hanner awr i'r amser a bennwyd, caiff ei ddiddymu os yw'n gyfarfod arbennig; os mai cyfarfod arferol ydyw, caiff ei ohirio am bythefnos i'r diwrnod hwnnw, i'w gynnal yr un amser ac yn yr un lle, ac, os na fydd cworwm yn bresennol ar yr achlysur hwnnw, caiff ei ddiddymu.

3.13 Gall unrhyw gyfarfod cael ei ohirio i amser a lle a bennir gan y cyfarfod.

3.14 Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, ar ran y Cyngor yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig bob blwyddyn am y rhestr aelodau, gan ddangos aelodau fel *ex-officio*, penodedig neu gyfetholedig, a rhoi dyddiadau ymddeol.

3.15 Disgwylir i aelodau'r Cyngor fynd i o leiaf dwy ran o dair o'r cyfarfodydd arferol a drefnir bob blwyddyn academaidd. Gellir diswyddo aelodau os nad yw'n mynd i'r cyfarfodydd yn rheolaidd yn unol â pharagraff 1.4 uchod.

**4**. **Gorchmynion Sefydlog**

4.1 Mae pŵer gan y Cyngor i wneud gorchmynion sefydlog at ddiben rheoli ei ddulliau gweithredu.

4.2 Gall y cyfryw orchmynion sefydlog bennu bod angen pleidlais dim llai na dwy ran o dair neu dri chwarter (fel y pennir mewn unrhyw achos neilltuol) yr aelodau sy'n bresennol (yn y cnawd ac yn rhithiol) ac yn pleidleisio ar gyfer eitem neilltuol.

**5. Yr Adroddiad Blynyddol**

Bydd y Llywydd/Is-ganghellor, ar ran y Cyngor, yn cyflwyno i'r Llys yn ei gyfarfod blynyddol adroddiad ar waith y brifysgol yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**6**. **Pwerau'r Cyngor**

Yn amodol ar ddarpariaethau'r Siarter, bydd gan y Cyngor, yn ychwanegol at yr holl bwerau eraill sydd wedi eu hymddiried ynddo gan y Siarter, y pwerau a'r swyddogaethau canlynol:

6.1 Penodi aelodau o'r Cyngor fel y caniateir yn yr Ordinhadau.

6.2 Penodi'r Llywydd/Is-ganghellor, y Dirprwy Is-ganghellor(ion), Ysgrifennydd y Cyngor a'r archwilydd neu'r archwilwyr fel y pennir yn yr Ordinhadau.

6.3 Penodi'r Canghellor a'r Dirprwy Ganghellor(ion) fel y pennir yn yr Ordinhad.

6.4 Rheoleiddio penodi staff academaidd a staff eraill fel y pennir yn yr Ordinhad.

6.5 Rheoleiddio sefydlu a datgysylltu swyddi academaidd a swyddi eraill, ac eithrio swyddi a grëwyd gan y Siarter a'r Ordinhadau ac ar ôl ymgynghori â'r Senedd mewn perthynas â swyddi academaidd.

6.6 Yn amodol ar y Siarter yn gwneud, ychwanegu at, diwygio neu ddirymu'r Ordinhadau.

6.7 Sefydlu, naill ai o gronfeydd cyffredinol y brifysgol neu o rodd cymwynaswr ac yn y naill achos neu'r llall ar argymhelliad y Senedd ac yn amodol ar unrhyw amodau sy'n dderbyniol i'r Senedd a'r Cyngor a all gael eu gwneud gan y sylfaenwyr, cymrodoriaethau, efrydiaethau, ysgoloriaethau, arddangosfeydd, bwrsariaethau a gwobrau a grantiau eraill i annog astudio ac ymchwil.

6.8 Awdurdodi'r Senedd i ddyfarnu graddau a chymwysterau eraill (yn cynnwys heb gyfyngiad, diplomâu, tystysgrifau, cymrodoriaethau, graddau er anrhydedd, cymrodoriaethau er anrhydedd, aelodaeth ac aelodaeth gyswllt) yn enw Prifysgol Bangor ac/neu ar y cyd â sefydliadau addysg eraill.

6.9 Ar ôl ymgynghori â'r Senedd, diddymu graddau a chymwysterau eraill (yn cynnwys heb gyfyngiad, diplomâu, tystysgrifau, cymrodoriaethau, graddau er anrhydedd, cymrodoriaethau

er anrhydedd, aelodaeth ac aelodaeth gyswllt) yn enw Prifysgol Bangor ac/neu ar y cyd â sefydliadau addysg eraill.

Ni chaiff unrhyw un ei amddifadu o unrhyw radd, diploma, tystysgrif neu ragoriaeth arall a roddwyd iddo/iddi gan Brifysgol Bangor oni bai, cyn i'r Senedd wneud argymhelliad i ddirymu, bod yr unigolyn dan sylw wedi cael gwybod am y rheswm ac wedi cael cyfle rhesymol i ymddangos gerbron a datgan ei achos i'r Senedd neu i bwyllgor. Os byddant yn manteisio ar y cyfle hwnnw, rhoddir adroddiad y Senedd neu'r pwyllgor hwnnw gerbron y Cyngor i'w ystyried.

6.10 Pennu, archebu a derbyn ffioedd am wasanaethau dysgu, preswylio a gwasanaethau eraill y gall Prifysgol Bangor godi tâl amdanynt yn ôl ei doethineb.

6.11 Llywodraethu, rheoli a rheoleiddio cyllid, cyfrifon, buddsoddiadau, eiddo, busnes a holl faterion Prifysgol Bangor ac at y diben hwnnw i benodi bancwyr neu asiantau eraill y gall fod yn ddefnyddiol i’w penodi, ar yr amod, cyn penderfynu ar unrhyw gwestiwn o gyllid sy'n effeithio'n uniongyrchol ar bolisi academaidd Prifysgol Bangor, bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw argymhelliad neu adroddiad arnynt gan y Senedd.

6.12 Buddsoddi unrhyw arian sy'n perthyn i Brifysgol Bangor neu a ddelir ganddi mewn unrhyw stociau, cronfeydd, cyfranddaliadau neu warantau y bydd y Cyngor yn eu hystyried o bryd i'w gilydd, p'un ai yn y Deyrnas Unedig neu y tu hwnt iddi ac a ydynt yn cynnwys rhwymedigaethau ai peidio, neu wrth brynu hereditamentau rhydd-ddaliad neu les daliad yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall gan gynnwys rhenti, ar yr amod:

a) yn achos arian a ddelir gan Brifysgol Bangor fel ymddiriedolwr, bydd y pwerau a roddir yn cael eu hymarfer yn amodol ar ddarpariaeth y gyfraith mewn perthynas â buddsoddiad gan ymddiriedolwyr, ac

b) yn achos arian a ddelir gan Brifysgol Bangor fel ymddiriedolwr ar ymddiriedolaethau a ddatganwyd gan ewyllys neu setliad, sydd at ddibenion eraill heblaw dibenion cyffredinol Prifysgol Bangor, ni fydd y pwerau a roddir yn arferadwy gan Brifysgol Bangor, ond bydd Prifysgol Bangor mewn perthynas â hyn yn cael unrhyw bwerau buddsoddi a roddir gan ewyllys neu setliad o’r fath neu a ganiateir gan y gyfraith mewn perthynas â buddsoddi gan ymddiriedolwyr.

6.13 Awdurdodi unrhyw gontractau, trefniadau a buddsoddiadau sydd eu hangen i ymarfer y pwerau a gynhwysir yn y Siarter.

6.14 Gwerthu, prynu, cyfnewid, prydlesu a derbyn prydlesi eiddo tirol a phersonol ar ran Prifysgol Bangor.

6.15 Benthyg arian ar ran Prifysgol Bangor, ac at y diben hwnnw, a fo’n briodol ym marn y Cyngor, i forgeisio neu gyfnewid neu godi tâl am holl eiddo Prifysgol Bangor neu ran ohono, boed yn dirol neu'n bersonol, ac i roi gwarant arall, ar eiddo tirol neu bersonol neu arall, fel y bo’n briodol ym marn y Cyngor.

6.16 Ar ôl ymgynghori â'r Senedd i gymryd unrhyw gamau fel y gwêl yn briodol i’r diben o hyrwyddo buddiannau Prifysgol Bangor, cynnal ei heffeithlonrwydd, darparu ar gyfer addysgu a’i annog, mynd ar drywydd dysgu ac ymchwil a darparu ar gyfer lles y myfyrwyr a'r staff.

6.17 Darparu a chynnal yr adeiladau, y safleoedd, y tiroedd, y dodrefn, y cyfarpar a dulliau eraill sydd eu hangen i gyflawni gwaith Prifysgol Bangor.

6.18 Gweinyddu a goruchwylio lleoedd preswyl, bwyd a hamdden a gynhelir gan Brifysgol Bangor, yn amodol ar ddarpariaethau’r Ordinhad mewn perthynas â disgyblaeth y myfyrwyr.

6.19 Darparu ar gyfer lles a gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau yswiriant, cynllun pensiwn, pensiynau, buddion ymddeol, rhoddion neu drefniadau llesiannol ar gyfer holl weithwyr a chyn-weithwyr Prifysgol Bangor a'u dibynyddion a'u cysylltiadau.

6.20 Darparu ar gyfer sefydlu pwyllgorau i gynnwys cynrychiolwyr y Cyngor ac unrhyw rai eraill bydd y Cyngor yn penderfynu arnynt ac i bennu dull penodi a swyddogaethau'r pwyllgorau hynny.

6.21 Y Cyngor yn unig fydd yn gofalu am sêl gyffredin Prifysgol Bangor a'r defnydd ohoni gyda phŵer llawn i dorri neu wneud y sêl ddywededig o'r newydd.

6.22 Yn amodol ar y Siarter ac ar ôl ymgynghori â'r Senedd, derbyn cysylltiad sefydliadau neu adrannau neu ganghennau eraill â Phrifysgol Bangor yn unol â thelerau ac amodau a fo’n briodol ym marn y Cyngor ac i gysylltu Prifysgol Bangor ag unrhyw sefydliad addysg uwch arall y mae ei wrthrychau yn gydnaws â rhai Prifysgol Bangor.

6.23 Penodi cynrychiolwyr Prifysgol Bangor ar gyrff eraill.

6.24 Gweithredu’r holl bwerau a roddir neu y gellir eu rhoi i Brifysgol Bangor gan y Siarter a'r Ordinhadau ac eithrio pan roddwyd y pwerau hynny yn benodol i awdurdod arall ym Mhrifysgol Bangor, ac i gyflawni unrhyw weithredoedd sy'n angenrheidiol i ddod â’r Siarter a'r Ordinhadau i rym.